COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Chwefror 12fed, 2020 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cynghorydd John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Alun Jones, Dylan Llwyd, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 8fed, 2020 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

   Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C19/1180/39/DT	Estyniadau ac addasiadau i dŷ presennol, gan gynnwys codi lefel y to, estyniad llawr cyntaf a chreu balconi – Tŷ Uchaf, Lôn Wilis, Mynytho **– Cefnogir**
C19/1204/39/LL	Creu chwe fflat ac un i'w ddefnyddio fel llety ar gyfer Rheolwr. Gwaith i gynnwys dymchwel estyniad ochr unllawr presennol i westy gwag, codi estyniad tri llawr i'r gwesty gwag a'i drosi'n bedwar fflat hunan gynhaliol, dymchwel yr annedd bresennol yng nghefn y safle a chodi adeilad deulawr newydd â thri fflat hunan gynhaliol yn lle'r annedd a ddymchwelwyd **–** Venetia, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a chan fod digon ohonynt ar gael yng nghanol y pentref, ynghyd â dechrau cynsail o droi tai cyfagos yn fflatiau hefyd. Mynegwyd pryder am fynediad i'r briffordd, gan ei fod ger cyffordd brysur yn arbennig yn ystod y tymor gwyliau. Hefyd, mae posibilrwydd y buasai gan bob fflat ddau gar (ac, efallai, gwch/*jetski*) ar safle bychan. Gallent amharu**

	ar gymdogion o ran sŵn a phreifatrwydd/goredrych. Buasai'n well ei gadw'n westy, gan fod cyn lleied ohonynt yn y pentref
C20/0006/39/DT	Dymchwel strwythurau presennol ac adeiladu estyniad unllawr, ynghyd ag addasiadau mewnol ac allanol i'r annedd bresennol – Tŷ Gwyn, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau eisoes**
C20/0008/39/LL	Trosi cyn-gapel yn uned wyliau – Capel Nant, Nanhoron **– Gwrthwynebir oherwydd bod angen tŷ fforddiadwy/angen lleol yn hytrach nag uned wyliau yn yr ardal. Mynegwyd pryder am yr effaith a gawsai o ran sŵn/ goredrych a phreifatrwydd y cymdogion yn y Tŷ Capel oherwydd agosatrwydd y ddau adeilad o gofio pam yr adeiladwyd hwy yn wreiddiol**
C20/0016/39/LL	**(Cais Ôl-weithredol)** Newid defnydd rhan o gae pori amaethyddol ar gyfer storio carafanau teithiol – Ty'n-y-Mur Camping Site, Lôn Garmon, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd y gall ddechrau cynyddu maint y maes carafanau a'r storfa, gan nad oes sicrwydd am y niferoedd a gedwir/ fwriedir eu cadw ar y safle. Maent yn weledol o'r briffordd, Pen y Gaer a Phont Llangian sydd yn rhan o AHNE Llŷn**
C20/0033/39/DT	Dymchwel modurdy/storfa atodol bresennol a chodi estyniad unllawr yn ei le, gwelliannau i'r fynedfa gerbydol a chreu man troi a pharcio – Bwthyn, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir**
C20/0035/39/DT	Estyniad unllawr â tho brig, codi to brig dros yr estyniad unllawr presennol a gosod ffenestr do newydd mewn llethr to presennol – Tŷ'n Ffos Isaf, Llanengan **– Cefnogir**
C20/0037/39/DT	Estyniad llawr cyntaf a newidiadau allanol – Sea Leys, Bwlchtocyn **– Cefnogir**
C20/0060/39/AC	Diwygio Amod 6 o Ganiatâd Cynllunio C14/1184/39/LL er mwyn cadw carafán statig ar y safle am ddeunaw mis ychwanegol i'w defnyddio at ddibenion preswyl wrth gwblhau'r gwaith ar y tŷ fforddiadwy newydd a ganiatawyd – Machlud Haul, Llanengan **– Gwrthwynebir oherwydd cwblhawyd y tŷ ers peth amser ac mae'r ymgeisydd yn byw ynddo. Mynegwyd pryder am y cyfnod – gallai ofyn am estyniad pellach ar ddiwedd hwnnw**
C20/0061/39/LL	Dymchwel ac amnewid cwt traeth presennol – Cwt Glan Môr 3, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn fwy na'r cwt gwreiddiol – mae'n ddeulawr ac uwch [Disgwylir ateb ers dros flwyddyn oddi wrth Arweinydd y Cyngor a'r Adran Gynllunio i bryder y Cyngor hwn am y newidiadau/ailadeiladu cytiau mwy fel y cais hwn.]**
C20/0085/39/DT	Estyniad cefn a mân newidiadau – Bryn Ochor, 10 Maes Awel, Aber-soch **– Cefnogir**
C20/0087/39/DT	Estyniad unllawr ar gefn yr eiddo – Rushmere, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Ymestyn Oriau Agor y Giatiau***

Nid oedd dim i'w adrodd.

ii) ***E-on – Gosod 'Smart Meter' yn y Toiledau***

Fe'i gosodwyd yr wythnos diwethaf.

iii) ***Cynnal a Chadw***
Hysbysodd y glanhawr fod angen bwlb golau newydd yn nhoiledau'r merched a bod y 'geaser' yn gollwng - trefnwyd cael plymwr ac adroddodd y buom yn ffodus na chafwyd byrst. Cafwyd trafferth cael hyd i'r stop tap - deallwyd y daw'r cyflenwad o fynedfa Benar Bach.

b) **Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Tynnwyd y cais cynllunio yn ôl a deallwyd fod y safle ar werth.

c) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel**
Ni dderbyniwyd yr ad-daliadau ond, dylid derbyn y cytundeb o fewn y pythefnos nesaf.

ch) **14. Gohebiaeth: ch) Scottish Power – Cyflenwad Trydan Ciosg Llanengan**
Ni wnaed dim pellach er dweud y bwriedid ailymweld ar Ragfyr 27ain.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Angen eu trafod.

b) **Yr Hen Fynwent**
Ymddiheurodd y Clerc na lwyddodd drefnu cyfarfod â Chadeirydd yr Henaduriaeth ddechrau'r wythnos fel y gobeithid – awgrymodd, oherwydd ei gofynion gartref, y buasai'n haws trefnu un hebddi hi. Gosodwyd arwydd ar werth ar Gapel y Bwlch erbyn hyn – capel a thir; penderfynwyd ysgrifennu at yr Henaduriaeth eto i fynegi pryder am hyn.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd – Goliau**
Gosodwyd goliau newydd Cae Chwarae Aber-soch (gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Angen trefnu ail-leoli rhai Cae Chwarae Mynytho.

b) **Paentio'r Offer a Lloches Bws Parciau, Mynytho**
Addawodd y paentiwr gwblhau'r uchod cyn gynted ag y gwella'r tywydd.

c) **Mainc Solar**
Yn anffodus, ni dderbyniodd Clerc Cyngor Cymuned Llanfair Talhaearn yr ymholiad ym mis Tachwedd ond, cafodd air sydyn ag o cyn dod heno ac ail-anfon y neges ato. Ymddiheurodd yn fawr.

ch) **Coeden ger Cae Chwarae Aber-soch**
Y Cyngor yw perchennog y ffordd a'r goeden. Anfonwyd yr e-bost gwreiddiol a dderbyniwyd oddi wrth y cwynwyr at Paolo Bavaresco ac Adam Wilde, arbenigwyr coed, er gwybodaeth a barn.

8. **CYFRIFON**

a) **Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol**

Ymddiheurodd y Clerc na lwyddodd drefnu cyfarfod – penderfynwyd ei gynnal cyn cyfarfod mis nesaf.

b) **Un Llais Cymru – Canllaw Syml ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref Bach i Ganolig – Amserlen Flynyddol o Weithredoedd Ariannol**
Copi, er gwybodaeth a gweithrediad, o'r uchod.

c) **Swyddfa Archwilio Cymru**

i) ***Datganiad i'r Wasg: Cyfrifon wedi cael Barn Amodol mewn Traean o'r Cynghorau Tref a Chymuned***
Copi, er gwybodaeth.

ii) ***Ymgynghoriad ar Drefniadau Archwilio yn y Dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymunedol yng Nghymru***
Angen sylwadau erbyn Mawrth 19eg.

ch) **Biniau/Trethi Ail Gartrefi**
Nis anfonwyd llythyr parthed yr uchod – angen ei eirio'n gywir a darllen erthyglau papur newydd i wneud hynny. Derbyniwyd copi o ohebiaeth a anfonodd Wyn Williams at Drysorydd Gwynedd a'r ateb a dderbyniodd parthed trethi'r ail gartrefi. Mynegwyd, yn arbennig o glywed ymateb y Trysorydd, nad yw ef yn sicr i;r drefn 'chwaith.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Unwaith yn rhagor ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Yr un cofnod â'r uchod – ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio nac Arweinydd y Cyngor fel yr addawodd ym mis Mehefin.

c) **Swyddog Gorfodaeth – Storio Carafanau yn Nhy'n-y-Mur, Lôn Garmon, Aber-soch**
Trafodwyd y cais cynllunio uchod.

ch) **Dilyn a Darganfod**
Ni dderbyniwyd ateb i'r mynegi anfodlonrwydd am y diffyg gwybodaeth a hysbysu defnyddwyr am y newidiadau i'r system.

d) **Ciosg BT – Stryd Fawr, Aber-soch**
Bwriedir gwaredu'r un tu allan i'r siop bysgod a sglodion - fe'i defnyddiwyd pedair gwaith ar hugain yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Angen sylwadau cyn Ebrill 19eg.

dd) **Gorfodaeth yr Hen Iard Lo, Lôn Garmon, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ymateb.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion yn y Gymuned**
Nid oedd dim i'w drafod.

b) **Gwrych Islwyn, Lôn Engan, Aber-soch**

Ni dderbyniwyd ymateb i'r cais o dorri'r gwrych. Anfonir copi o'r llythyr at berchnogion 2 Maes Awel hefyd, gan fod y gwrych yn rhan o'u heiddo yn ogystal.

c) **Gorchymyn Cau'r Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn â Maes Carafanau Pant Gwyn, Sarn Bach**
Cwblhawyd y gwaith erbyn hyn. Deallwyd na fydd cyflenwad trydan ym Mwlchtocyn am ddiwrnod yr wythnos nesaf er mwyn gorffen cysylltu'r ceblau.

ch) **Gorchymyn Cau Ffyrdd – Ffordd Ddosbarth III Balaclafa, Mynytho, a Di-ddosbarth Lôn Garmon, Aber-soch**
Copi, er gwybodaeth, ar gyfer cau'r uchod ar Chwefror 11eg a 14eg.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Dewi Wyn Owen, Swyddog Llwybrau, yn hysbysu y dylid cynnwys cyfeiriad 'Llwybrau' yn unrhyw ohebiaeth yn ystod ei gyfnod gartref yn dilyn ei lawdriniaeth. Hysbysodd hefyd mai'r un ad-daliad a gyfrennir ar gyfer torri llwybrau'r gymuned eto eleni – £2438.50; fe'i derbynnir.

12. **TRAETHAU**

a) **Padlfyrddio ar Borth Fawr**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach er cysylltu eto.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/1070/39/LL	Mynedfa gerbydol a thrac **–** Llwyndu, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/1062/39/LL	Safle glampio arfaethedig i gynnwys pedwar cwt bugail a gwaith cysylltiol **–** Fferm Pant yr Hwch, Aber-soch – **Gwrthodwyd**
C19/1105/39/DT	Estyniadau ac addasiadau, gan gynnwys estynnid porth newydd ar y llawr gwaelod, estyniad newydd ar y llawr gwaelod yn cynnwys estyniad o'r ddormer a'r balconi presennol, estyniad lefel islawr newydd sy'n cynnwys balconi de newydd uwchben, estyniad ochr bae â balconi de ar y llawr uwchben ac ailfodelu cyffredinol o'r safle **-** Trigfa, Lôn Sarn Bach, Aber-soch - **Caniatawyd ag amodau**
C19/1125/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio CD/0220/39/LL er mwyn caniatáu dau dŷ unllawr yn lle dau ddeulawr ar leiniau tri a phedwar **-** Bryn Hedd, Mynytho - **Caniatawyd ag amodau**
C19/1126/39/DT	Codi estyniad unllawr **–** Ocean Crossing, Fferm Bwlchtocyn, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C19/1155/39/DT	Estyniad deulawr ochr i gymryd lle estyniad unllawr ochr a modurdy **–** Bryn Eithin, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C19/1158/39/DT	Ffenestr gromen cefn a ffenestri to blaen (ailgyflwyniad o Gais Cynllunio C19/0563/39/LL) **-** Delphis, 7 Stad Llwyn Onn, Aber-soch - **Caniatawyd ag amodau**
C19/1159/39/DT	Gosod ffenestr gromen cefn a chodi estyniad unllawr ar gefn yr eiddo – Delfryn, 13 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

C20/0006/39/DT Dymchwel strwythurau presennol ac adeiladu estyniad unllawr, ynghyd ag addasiadau mewnol ac allanol i'r annedd bresennol **–** Tŷ Gwyn, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**

CAIS A DYNNWYD YN ÔL

C19/0730/39/LL Cais i gadw adeiladau/strwythuron yn gysylltiedig â defnydd y safle fel caffi/iard storio cychod – Mickey's Beach Cafe, Mickey's Boatyard, Marchros, Bwlchtocyn

14. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor***
Ymddiheurwyd na fyddai neb yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ionawr 22ain.

ii) ***SDCau – Diwygio Arfaethedig i Ddau Orchymyn Draenio Cynaliadwy***
Llythyr yn hysbysu'r diwygiad oherwydd camgymeriad yn y gorchymyn gwreiddiol.

iii) ***Ymateb ULlC i Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)***
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod.

iv) ***Hyfforddiant***
Rhestr o hyfforddiant a gynhelir yn Yr Wyddgrug hyd at fis Gorffennaf.

v) ***Tâl Aelodaeth 2020***
Derbyniwyd y ffurflen uchod – £553.00 yn seiliedig ar 1647 o anheddau trethadwy yn ôl £0.336c yr annedd; penderfynwyd ailymaelodi (gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

b) **Mabon ap Gwynfor – Diweddariad Ymgyrch Canolfan Cancr**
Llythyr yn hysbysu y derbyniodd gefnogaeth mwyafrif y cynghorau cymuned a thref i'r cais o sefydlu canolfan ddiagnosis cancr cyflym yn y Gogledd. Bwriada Llywodraeth Cymru rhyddhau adroddiad terfynol ar y sefyllfa ym mis Mai.

c) **Test Strike UK Ltd. – Profi Corn Tanrallt**
Profwyd y Corn ar Ionawr 28ain – popeth yn iawn. Derbyniwyd copi o'r dystysgrif a'r anfoneb (gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

ch) **Newyddlen Cymdeithas y Clercod (SLCC) – Cyfarwyddiadau Mynediad at Gynnwys Gwefannau'r Llywodraeth**
Cyflwynwyd yr uchod yn 2018, sef gofynion bod yr oll o wefannau'r sector cyhoeddus ac apiau symudol ar gael i'r holl ddefnyddwyr, yn arbennig y rhai ag anableddau. O ganlyniad, rhaid i wefan y Cyngor gydsynio â hyn erbyn mis Medi 2020. Trefnwyd cytundeb arbennig â datblygwr gwefannau - angen holi Delwedd.

d) **Hunaniaith – Perfformiad Mewn Cymeriad 'Kate'**
Poster yn hysbysebu'r uchod yn Neuadd Aber-soch nos Wener, Chwefror 14eg am saith o'r gloch.

dd) **Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) - Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned Aberdaron, Llanengan a Botwnnog ar y Còd Ymddygiad i Aelodau**

Gohebiaeth yn dilyn trafodaeth â'r Cyng. Simon Glyn am yr uchod. Datblygir hyfforddiant (awr a hanner i ddwy) i gynghorau cymuned ar hyn o bryd a pheilotir trefn newydd. Y bwriad yw cynnig hyfforddwr yn hytrach na threfnu cwrs. Y Cyngor fyddai'n gyfrifol am drefnu canolfan addas a bod aelodau'n mynychu (un ai fel cyngor unigol neu ar y cyd ag eraill) – lleiafswm o ddeg ac uchafswm o ugain. Codir ffi enwol i ymdopi â chostau o £25.00; penderfynwyd gofyn am fwy o wybodaeth a mynegi diddordeb i'r oll o'r Aelodau.

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Ionawr (Rh/S 002270) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Strike (UK) Ltd. – £136.80 (Rh/S 002267 – Profi Corn Tanrallt)
b) Emyr Jones – £80.00 (Rh/S 002268 – Gosod Goliau Cae Chwarae Aber-soch)
c) Casglwr Trethi – £5.61 (Rh/S 002269 – Talu Wrth Ennill)
ch) G.R. Owen a'i Fab – £228.72 (Rh/S 002271 – Goliau Cae Chwarae Aber-soch)
d) W. & G. Williams – £3.99 (Rh/S 002272 – Bwlb Golau i'r Toiledau)
dd) Un Llais Cymru – £553.00 (Rh/S 002273 – Tâl Aelodaeth 2020)
e) Y Clerc – £48.00 (Rh/S 002274 – Ad-daliad Dogfennau'r Gofrestrfa Tir)

Derbyniadau

a) Toiledau – £19.40 (Tâl Mynediad – £13.30, £6.10)
b) ScottishPower – £3.57 (Wayleave)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Mawrth 11eg, 2020 am saith o'r gloch